



Cyfeirnod y ddogfen: 462A2015
Dyddiad cyhoeddi: Medi 2015
Manylion cyswllt: Stephen Lisle

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg: Adolygiad Dilynol o Theatrau Llawdriniaethau

1. Mae gwasanaethau theatrau llawdriniaethau yn rhan hanfodol o ofal cleifion. Dylai theatrau fod yn gost-effeithiol, dylent gynorthwyo i gyrraedd targedau amseroedd aros a chyfrannu at ofal o ansawdd uchel i gleifion. Mae theatrau yn ddibynol iawn ar ffactorau allanol. Os nad yw prosesau cyn/ar ôl y llawdriniaeth yn brosesau o'r safon uchaf, bydd hyn yn cael effaith ar theatrau.
2. Dywedodd adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru yn 2012 fod y Bwrdd Iechyd yn llygad ei le yn canolbwyntio cryn ymdrech ar osod y sylfeini i wella gwasanaethau theatr. Fodd bynnag, bu'r effaith ar berfformiad yn siomedig a dylai'r Bwrdd Iechyd roi blaenoriaeth i oresgyn rhai rhwystrau allweddol sy'n parhau.
3. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal adolygiad dilynol o theatrau yn Abertawe Bro Morgannwg a phob bwrdd iechyd arall, ac eithrio Powys, mewn ymateb i geisiadau gan Bwyllgorau Archwilio, pwyllgorau gwaith ac eraill a chydabyddiaeth nad yw perfformiad theatrau mewn sawl ardal ar draws Cymru o'r safon uchaf.
4. Ein nod oedd ceisio ateb y cwestiwn canlynol: **A yw'r Bwrdd Iechyd yn adeiladu ar ein hargymhellion blaenorol ac yn darparu gwasanaethau theatr effeithlon o ansawdd uchel?**

Canfyddiadau allweddol

5. Mae'r tabl isod yn crynhoi ein canfyddiadau allweddol. Amlinellir y canfyddiadau manwl yn y sleidiau sydd ynghlwm wrth y crynodeb hwn.

Casgliad cyffredinol: Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella rhai agweddau ar y llwybr llawfeddygol ond prin fu'r gwelliant mewn theatrau ac mae ein hargymhellion wedi cael eu gweithredu mewn ffordd anghyson. Mae perfformiad theatrau'n parhau i fod yn broblem ond mae'r defnydd o wiriadau diogelwch mewn theatrau wedi gwella.

Rhan 1: Mae ein hargymhellion wedi cael eu gweithredu mewn ffordd anghyson ers i'r Rhaglen Theatrau ddod i ben. Cynigir cyfle pwysig yn sgil y cyllid newydd ar gyfer staff theatrau.

Rhan 2: Mae perfformiad theatrau'n parhau i fod yn is na'r safon.

Rhan 3: Mae llwybr gwaith y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar y rhwystrau sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol theatrau. Mae angen ategu hyn gyda gwaith penodol mewn theatrau.

Rhan 4: Ysgogodd y methiannau yn y defnydd o'r rhestr wirio lawfeddygol welliannau mewn ymyriadau diogelwch allweddol.

Argymhellion

6. Rydym yn argymhell y dylai'r Bwrdd Iechyd:

A1 Ailgyflwyno rhaglen strwythuredig ar gyfer gwella theatrau, o bosibl fel ffrwd waith o fewn y Bwrdd Llwybr Llawfeddygol.

A2 Cyflwyno mecanwaith i sicrhau bod effeithlonrwydd theatrau, cynhyrchiant a diogelwch yn cael eu goruchwyllo'n fwy rheolaidd gan y weithrediaeth.

A3 Adolygu rôl y Cyfarwyddwr Clinigol ar gyfer theatrau er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei rymuso i ddatrys problemau lle bynnag y byddant yn codi yn y llwybr llawfeddygol.

A4 Datblygu dull o reoli perfformiad mewn theatrau sy'n sicrhau bod data o ansawdd da yn cael eu defnyddio'n eang i ysgogi gwelliannau.

A5 Manteisio ar arbenigedd tîm Cyfathrebu y Bwrdd Iechyd i hyrwyddo i'r staff fanteision defnyddio rhestr wirio Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) a sesiynau briffio.

A6 Gwneud rhagor o waith i ddeall a rheoli cyfraddau absenoldeb salwch uchel mewn theatrau.

7. Gelir cael rhagor o wybodaeth gan Stephen Lisle, Arbenigwr Perfformiad (Ffôn: 07815 955470, ebost: stephen.lisle@wao.gov.uk).